OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1824 (Cy.165)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ailstrwythuro Cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol: Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*8 Gorffennaf 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Gorffennaf 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Hydref 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ailstrwythuro Cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol: Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2009 ac mae'n dod i rym ar 1 Hydref 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Tâl am Wasanaethau Fferyllol — Trefniant Arbennig) 1991

2. Mae Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Tâl am Wasanaethau Fferyllol — Trefniant Arbennig) 1991(**2**) wedi'i ddirymu i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru.

Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth

3. Mae effaith i'r Atodlen (sy'n cynnwys diwygiadau i is-ddeddfwriaeth).

(**1**) 2006 (p.42).
(**2**) O.S. 1991/509.

Edwina Hart
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

8 Gorffennaf 2009

YR ATODLEN Erthygl 3

Diwygiadau i Offerynnau Statudol

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Clefydau Gwenerol) 1974

1.—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Clefydau Gwenerol) 1974(**3**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (cyfrinachedd gwybodaeth) —

(a) yn lle "Regional Health Authority and every District Health Authority" rhodder "Local Health Board and NHS Trust"; a

(b) yn lle "Authority" rhodder "Local Health Board or the NHS Trust".

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Ffioedd a Godir ar Ymwelwyr Tramor) 1989

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Ffioedd a Godir ar Ymwelwyr Tramor) 1989(**4**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2) (enwi, cychwyn a dehongli) —

(a) hepgorer y diffiniad o "Authority";

(b) yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor mewnosoder y diffiniad canlynol —

> ""Local Health Board" has the meaning assigned to it by section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006(**5**);".

(3) Ym mhob un o'r rheoliadau canlynol, yn lle "Authority" ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder "Local Health Board"—

(a) rheoliad 1 (enwi, cychwyn a dehongli);

(b) rheoliad 2 (codi ac adennill ffioedd);

(c) rheoliad 4 (ymwelwyr tramor sy'n esempt rhag ffioedd); ac

(ch) 8 (ad-daliadau).

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997

3.—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**6**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1 (enwi, cychwyn a dehongli) —

(a) ym mharagraffau (c) ac (f) o'r diffiniad o "responsible authority", ar ôl y geiriau "NHS Trust", mewnosoder "or Local Health Board";

(b) ym mharagraff (b) o'r diffiniad o "voucher", ar ôl y geiriau "NHS Trust" ym mhob man y maent yn digwydd, mewnosoder "or Local Health Board.".

(3) Ym mharagraff (2) o reoliad 2 (ffioedd am sbectolau a lensys cyffwrdd) ar ôl y geiriau "NHS Trust" mewnosoder ", Local Health Board".

(4) Ym mharagraff (5) o reoliad 8 (cymhwyster — cyflenwi offer optegol) ar ôl y geiriau "NHS Trust" ym mhob man y maent yn digwydd mewnosoder "or Local Health Board".

(5) Yn rheoliad 10 (dyroddi talebau gan ymddiriedolaethau GIG) —

(**3**) O.S. 1974/29.
(**4**) O.S. 1989/306.
(**5**) 2006 p.42.
(**6**) O.S. 1997/818.